Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Camau Bach (Aberystwyth)**

**Canolfan Integredig a Hyfforddiant**
**Boulevard De St Brieuc**
**Aberystwyth**
**SY23 1PD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/06/2023

# Meithrinfa Camau Bach (Aberystwyth)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfeydd Cymru Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 75 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad yn fawr. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael hwyl yn chwarae gyda'u ffrindiau a staff, cânt gyfoeth o ddewis a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau gwahanol. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth eang o brofiadau o ansawdd.

Mae'r staff yn dilyn llawer o bolisïau a gweithdrefnau da sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Mae'r staff yn darparu lleoliad cynnes a magwrus sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant a'u datblygiad. Mae gan y staff gydberthnasau cynnes a gofalgar â'r plant. Maent yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant drwy eu gwybodaeth a'u sgiliau cyfredol a'u hagweddau magwrus a gofalgar.

Mae'r staff yn dilyn mesurau priodol er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel. Maent yn darparu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda dodrefn, teganau a chyfarpar sy'n briodol ar gyfer anghenion y plant. Caiff yr ardal awyr agored flaenoriaeth uchel ac mae pob agwedd ar y lleoliad yn lân.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth ragorol ac ymdeimlad o bwrpas sy'n cynnal gwelliannau ac yn hyrwyddo canlyniadau rhagorol i'r plant. Maent yn llawn cymhelliant ac yn sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a chofnodion cadarn ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cymorth o ansawdd uchel i'r staff.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y plant lawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser. Mae'r plant yn symud yn rhydd o gwmpas eu hardaloedd chwarae ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, drwy gydol y sesiynau. Er enghraifft, dewisodd rhai o'r plant eistedd a gwrando ar stori tra bo eraill wedi dewis chwarae gyda theganau synhwyraidd. Mae'r plant yn hyderus i gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau, am eu bod nhw'n gwybod y bydd yn staff yn gwrando arnynt ac yn dangos diddordeb.

Mae'r plant yn eithriadol o hapus yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn datblygu cydberthnasau cynnes a charedig â'r staff ac yn amlwg yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant eraill. Mae'r plant yn adnabod y staff a'r drefn o ddydd i ddydd yn dda iawn, sy'n eu helpu i deimlo'n gartrefol ac yn hyderus iawn yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn trosglwyddo o amser chwarae i amser bwyd yn esmwyth iawn am fod y staff yn eu paratoi ar gyfer y newid hwn mewn da bryd. Mae'r plant yn cael llawer o anogaeth a chanmoliaeth gan y staff wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, gan roi'r hyder iddynt chwarae a dysgu. Maent yn sgwrsio'n hwylus â'r staff, gan ymgysylltu â nhw'n hwyliog yn eu chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff. Maent yn dysgu i fod yn garedig i'w ffrindiau ac i rannu teganau ac adnoddau. Mae'r plant yn chwarae'n hapus iawn ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd. Gwelsom blant caredig ac ystyriol yn helpu ei gilydd i wisgo eu hesgidiau tra bo eraill yn gwthio ei gilydd yn y cadeiriau gwthio.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau'n frwdfrydig gan gynnwys cwblhau helfa drysor Mr Urdd yn yr ardd a gweithgareddau synhwyraidd gyda sprincleri mewn hambyrddau cadarn. Maent yn dangos eu bod yn gallu canolbwyntio'n dda ac yn gallu ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau a gynigir iddynt. Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth rhagorol o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Er enghraifft, dangosodd y plant cyn-ysgol lawer o chwilfrydedd wrth iddynt archwilio'r ardd, gan gasglu gwahanol ddail a phetalau i greu cacen yn y gegin fwd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu hannibyniaeth. Cânt eu darparu gydag amrywiaeth o brofiadau sy'n addas i'w hoedran, er mwyn ymarfer eu sgiliau hunangymorth. Er enghraifft, amser cinio mae'r plant yn bwyta'n annibynnol ac yn dweud os ydynt yn dymuno cael mwy o fwyd. Roedd y plant bach yn ceisio gwisgo eu hesgidiau pan roedd hi'n amser iddynt chwarae yn yr awyr agored. Mae plant o bob oedran yn dewis gweithgareddau'n hyderus, sy'n eu cefnogi i ddatblygu sgiliau meddwl yn annibynnol a gwneud penderfyniadau eu hunain. Mae'r plant hŷn yn barod i helpu i dacluso ar ddiwedd sesiwn chwarae ac yn gwybod lle i storio'r teganau a'r adnoddau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol iawn i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall y polisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson, gan hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae'r staff yn annog bwyta'n iach ac yn darparu amrywiaeth eang o fwyd maethlon. Maent yn ymateb yn gynnes i ofynion y plant pan fydd eisiau mwy o fwyd arnynt neu os byddant yn gofyn am ddewis arall. Mae'r staff yn cyflawni gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau hylendid da; er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo yn gyson. Maent yn gweithio'n effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel; gan symud o amgylch yr amrywiol ardaloedd yn aml yn rhyngweithio â'r plant neu'n eu cefnogi. Mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn ateb yn hyderus am yr hyn dylent ei wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb gwirioneddol y plant ac maent yn hyderus wrth ymdrin â damweiniau a digwyddiadau. Maent yn deall sut i roi meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae'r staff yn creu cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae eu rhyngweithio'n gyson annwyl, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd; maent yn parchu ac yn gwrando ar safbwyntiau'r plant. Mae'r staff yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn aml, ac maent yn fodelau rôl rhagorol i'r plant; gan ysgogi'r plant i ddweud “please” a “thank you” pan fo'n briodol ac eistedd gyda nhw amser bwyd er mwyn cefnogi eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn siarad â'r plant yn dyner ac yn eu hatgyfnerthu'n gadarnhaol yn ogystal â defnyddio sticeri.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu a'u datblygiad eu hunain; gan gefnogi eu dewisiadau a chaniatáu cyfleoedd iddynt archwilio ac arbrofi drwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn gwneud arsylwadau o'r plant yn ystod y gweithgareddau er mwyn eu helpu i ddatblygu. Maent yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Mae'r staff yn gweithio i roi egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ar waith drwy 'gynllunio yn y foment', sy'n sicrhau eu bod yn dilyn arweiniad y plant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn cefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Maent yn defnyddio iaith sy'n addas ar gyfer anghenion unigol a cham datblygu pob plentyn. Mae'r staff yn cefnogi eu sgiliau iaith gan gynnwys defnydd cyson o'r Gymraeg.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar y gallu i symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do a'r ardal awyr agored yn ystod yr arolygiad oherwydd bod gwaith adeiladu yn mynd rhagddo.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu gweithdrefnau glanhau cyson yn effeithiol sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae ganddynt arferion rheoli heintiau priodol ar waith sy'n llwyddo i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Caiff y drysau eu cadw dan glo bob amser, ac mae'r plant, yr ymwelwyr a'r staff yn cael eu mewngofnodi a'u hallgofnodi fel mater o drefn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r safle ac mae'r holl wiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol. Maent yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n ymdrin â phob agwedd ar yr amgylchedd, gan eu hadolygu'n rheolaidd a chymryd camau priodol os oes angen. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn aml, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion manwl er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff a'r plant adael yr adeilad mewn argyfwng.

Mae'r safle yn gynnes, yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio'r ardal yn effeithiol, dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn helpu i feithrin eu hyder drwy sicrhau y gallant symud o gwmpas yn rhydd ac archwilio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi'r plant i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn aml am fod canopi yno sy'n darparu cysgod. Maent yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i fod yn greadigol ac i archwilio'n hyderus ac yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant drwy gynnig amrywiaeth eang o adnoddau ac ardaloedd diddorol sy'n herio ac sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn gyson. Mae'r digon o le yn yr ardal awyr agored sydd wedi'i hamgáu i blant archwilio amrywiaeth o brofiadau chwarae yn yr awyr agored, sy'n cynnwys fframiau dringo, sleid, cegin fwd, ardaloedd plannu, twnnel a chwch pren mawr.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall y plant fanteisio ar amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar gwirioneddol. Maent yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd da sy'n addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn. Mae dodrefn addas i'r plant eistedd arnynt yn hawdd er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau bwrdd ac er mwyn bwyta eu bwyd. Mae'r toiledau o faint plant ac yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Rhagorol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn ganmoladwy. Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth lawn a chywir i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig ac yn llawn cymhelliant i wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt yn barhaus. Maent yn rheoli'r lleoliad yn unol â'r rheoliadau ac uwchlaw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff polisïau a gweithdrefnau o ansawdd uchel eu rhoi ar waith gan y staff yn ymarferol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd trefnus iawn, mae'n hawdd cael gafael ar bob dogfen ac maent mewn trefn dda iawn. Mae ffeiliau'r staff o ansawdd rhagorol ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol effeithiol iawn, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu, gan wella eu hymarfer yn barhaus. Caiff y staff newydd eu cefnogi yn ystod eu cyfnod prawf gyda phroses sefydlu drylwyr. Mae'r nifer o staff cymwysedig yn fwy na'r gofyniad safonau cenedlaethol gan sicrhau y caiff y plant ofal bob amser. Caiff y staff gyfleoedd da iawn i gael hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol. Maent yn ceisio adborth gan rieni, y plant, y staff ac asiantaethau allanol yn rheolaidd. Caiff y wybodaeth ei defnyddio i lywio adroddiad ansawdd y gofal a llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu llyfrgell gymunedol yn y lleoliad yn ddiweddar. Mae hon yn ardal lle gall y rhieni a'r plant ei defnyddio gyda'i gilydd i eistedd a rhannu straeon, benthyg llyfrau neu sgwrsio gyda theuluoedd eraill.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cydberthnasau cryf a chadarnhaol â'r rhieni. Mae'r rhieni yn cael adborth drwy ap digidol yn aml er mwyn cyfathrebu mewn amser real, sydd hefyd yn galluogi'r rhieni i ymateb neu gysylltu â'r feithrinfa. Mae'r staff yn anfon lluniau o'u plant yn chwarae a nodiadau arsylwadol ar eu datblygiad drwy ddefnyddio'r ap. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Caiff cydberthnasau buddiol eu datblygu â chynghorwyr yr awdurdod lleol ac asiantaethau cymorth megis lleferydd ac iaith. Mae cydberthnasau cryf o'r fath yn helpu i hyrwyddo canlyniadau rhagorol i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Parhau i ymgorffori egwyddorion Cwricwlwm i Gymru |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/07/2023